Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 2: 1-12

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 2: 11

Gwers 3 Stori'r Nadolig – Y Seren Arbennig

Roedd Ben a Beca wedi cyffroi'n lân un Dydd Nadolig. Ar ôl agor eu pentwr o anrhegion rhyfeddol, roedden nhw'n disgwyl i rai aelodau arbennig o'r teulu alw heibio. Roedd Wncwl Bob ac Anti Sian wedi dod yr holl ffordd o Awstralia ac roedden nhw'n mynd i aros gyda nhw tan y Flwyddyn Newydd. Mae'r Nadolig yn adeg o ymweliadau gan y teulu ac ad-duniadau. Wrth ddarllen y Darlleniad o'r Beibl, dysgwn fod y Nadolig cyntaf hefyd yn adeg o ymweliadau arbennig. I ddechrau, dyna chi'r bugeiliaid adawodd eu praidd gan ddod o hyd i'r Arglwydd Iesu mewn preseb. Yna, flwyddyn yn ddiweddarach o bosibl, daeth Doethion (Seryddion) o'r Dwyrain i ymweld ag Ef.

C Drwy lanw'r Grisiau Geiriau, byddwch yn dysgu am yr hyn a wnaeth y Doethion cyn iddyn nhw ddod o hyd i'r Baban 'newydd Ei eni'.

1. Gwelsant hon yn y Dwyrain.
2. Hwn oedd brenin Jwdea.
3. Dyma pam roedden nhw'n awyddus i ddod o hyd Iddo.
4. Cyraeddasant yma yn gyntaf.
5. Yr Un a anwyd ym Methlehem.
6. Y cwestiwn a ofynasant i'r brenin.
7. Daethant i weld Brenin yr ..... .



7

C O ba gyfeiriad y daeth y Doethion? Rhowch gylch o gwmpas y pwynt cywir ar y cwmpawd.



1

C Tanlinellwch y geiriau sy'n disgrifio orau ymateb y brenin a'r ddinas i'r cwestiwn a ofynnwyd gan y Doethion.

Hapus a bodlon.

Blin a chwerw.

Wedi'u siomi a'u cynhyrfu.

1

Yna anfonodd Herod am gymorth y Prif Offeiriaid a'r Ysgrifenyddion.

C Sut roedd y rhain yn gwybod y byddai'r Brenin 'newydd Ei eni' – y Crist – i'w ganfod ym Methlehem?

1

Roedd Herod yn poeni y byddai'n colli ei orsedd o bosibl, er na ddywedodd hynny wrth y Doethion. Yn hytrach, anogodd nhw i fynd i Fethlehem. Gofynnodd iddynt roi gwybod iddo pan fyddent wedi dod o hyd i'r 'Crist' er mwyn iddo yntau hefyd ymweld ag Ef!
Wrth i'r Doethion adael y brenin, gwelsant y seren unwaith eto.

C Yn eich geiriau eich hun, esboniwch beth wnaeth y seren arbennig honno.

1

Lliwiwch hanner y cylch sydd wrth ymyl yr ateb cywir.

Pan welsant y seren, roeddent yn llawenhau ◯ roeddent yn drist.

Yna, aethant i'r ardd ◯ i mewn i'r tŷ.

Gwelsant y plentyn ◯ baban bach. Roedd Ef gyda Mair ◯ Joseff.

Syrthiasant i lawr a dechrau canu Iddo ◯ Ei addoli.

5

C Darllenwch yr Adnod Allweddol i ganfod pa drysorau roddodd y Doethion i'r Arglwydd Iesu.

1

1	2	3

C Ysgrifennwch Do neu Naddo wrth ymyl y brawddegau canlynol:-

Rhybuddiwyd nhw gan Dduw mewn breuddwyd i beidio â mynd nôl at Herod. .....

Dywedwyd wrthyn nhw am ddychweld at Herod ar frys. .....

Aethant adref ar hyd ffordd arall. .....

3

Unwaith eto, cawn weld fod y Plentyn bach hwn yn Rhywun arbennig iawn! Câi Ei addoli a'i gydnabod yn Frenin yr Iddewon. Cyhoeddodd Angylion mai Ef oedd Crist yr Arglwydd, Gwaredwr y byd a Mab Sanctaidd Duw ei Hun. Arhoswch am funud a gofynnwch i chi eich hun, "Ydw i wir yn gwybod pwy yw Ef, ac os yw'r holl bethau rhyfeddol hyn amdano yn wir, beth sy'n rhaid i fi ei wneud?" Os na wnaethoch hynny eisoes, ymddiriedwch Ynddo nawr fel eich Arglwydd a'ch Gwaredwr!